

Arteffactau Caernarfon



Arteffactau Caernarfon

Copi o goron Edward I

Copi o goron Edward I. Mae hwn yn gopi o goron Edward I. Cafodd ei gwneud drwy gastio metel mewn mowldiau, yna cydosod y darnau gan ddefnyddio pinnau addurnol, â dail derw arnynt. Mae'n fawr, ond mae'n ffitio pob dyn dros chwe throedfedd o daldra sydd wedi ei gwisgo. Rydym yn gwybod bod Edward I yn chwe throedfedd a dwy fodfedd o daldra, ac oherwydd hyd ei goesau a'i freichiau rhoddwyd y llysenw 'Longshanks' iddo.

Sut ydym yn gwybod sut olwg oedd ar y goron?

Prin iawn yw'r delweddau sy'n dyddio o gyfnod Edward I, ond mae paentiad o Edward yn Abaty Westminster, ac rydym wedi copio'r goron o'r paentiad hwnnw. Fwy na thebyg y dinistriwyd y goron wreiddiol, ynghyd â gweddill Gemau'r Goron, ar ôl dienyddio Brenin Siarl I ym 1649. Gorchynnwyd eu dinistr gan Oliver Cromwell, a wnaeth ddiddymu'r frenhiniaeth a datgan y byddai Prydain yn Gymanwlad weriniaethol. Cafodd Gemau'r Goron yr y pryd naill ai eu gwerthu neu eu toddi i wneud darnau arian.



Arteffactau Caernarfon

Copi o benwisg y Frenhines

Copi o Dorch y Frenhines. Mae'r benwisg hon wedi'i gwneud o sidan gwyn. Dim ond y cyfoethog iawn a wisgai'r defnydd hwn yn y 13eg ganrif. Mae'r gorchudd pletio ar y rhan uchaf yn defnyddio mwy o sidan na gorchudd plaen, ac roedd yn ffordd o arddangos cyfoeth, gan fod sidan yn ddrud iawn. Gwisgwyd y math hwn o benwisg yn wreiddiol gan ferched bonheddig ond erbyn 1220 roedd merched ar lefelau eraill cymdeithas hefyd yn gwisgo'r math hwn o benwisg. Erbyn 1260, dechreuodd merched bonheddig wisgo eu gwallt mewn plethi 'cyrn maharen' dros eu clustiau, a daeth y fêl yn fyrrach. Erbyn y 1270au, roedd rhan uchaf y benwisg yn lletach ar y brig nac ar y gwaelod, ac yn y 14eg ganrif nid oedd rhan uchaf ar y penwisgoedd hyn yn aml, ac roeddent wedi'u gorchuddio â brodwaith aur a gemau.

Sut ydym yn gwybod sut olwg oedd ar y benwisg?

Mae'r benwisg hon yn gopi o un a welir mewn delwedd garreg wedi'i cherfio o Margaret o Ffrainc, ail wraig Edward I, yn Eglwys Gadeiriol Lincoln.



Arteffactau Caernarfon

Broetsh ganoloesol ar ffurf modrwy

Broetsh ganoloesol ar ffurf modrwy. Mae broetshis crwn ar ffurf modrwy wedi cael eu defnyddio drwy gydol hanes gan ddynion a merched ill dau. Gallent fod yn blaen, gallai fod arysgrifau arnynt neu gallai fod gemau gwerthfawr a lled-werthfawr wedi'u gosod ynddynt. Rhoddwyd llawer fel anrhegion ac fe'u cynlluniwyd i'w gwisgo ar y frest, i gau clogynnau, ac ar ysgwyddau mentyll.

Mae'r copi hwn yn seiliedig ar 'Froetsh Oxwich', sef broetsh o'r 14eg ganrif a ganfuwyd wrth gloddio yng Nghastell Oxwich. Mae gan Froetsh Oxwich gameos a rhuddemau ond mae arbenigwyr o'r farn mai saffirau a rhuddemau bob yn ail fyddai ganddi'n wreiddiol pan gafodd ei gwneud, a bod y cameos wedi'u hychwanegu rhywfaint yn hwyrach. Roedd y froetsh yn amlwg yn wrthrych gwerthfawr iawn, ac wedi'i gwneud yn gelfydd. Byddai rhuddemau a saffirau wedi bod yn ddrud iawn, gan eu bod yn dod o India neu Sri Lanca yn wreiddiol, ac mai drwy fasnachu amdanynt y cafwyd gafael arnynt. Mae'n ddigon posibl bod yr aur wedi'i ailgylchu drwy doddi gemwaith cynharach, fel oedd yn digwydd yn aml yn y canoloesoedd.

Mae arwyddocâd gemwaith canoloesol yn llawer pwysicach na'i werth materol neu addurnol. Roedd pobl yn y canoloesoedd yn credu bod gan gemfeini ystyron a nodweddion meddyginiaethol, ac mae'n bosibl y dewiswyd y cerrig am y rhesymau hyn yn hytrach na'u golwg.



Sut ydym yn gwybod sut olwg oedd ar y froetsh?

Mae'r froetsh wreiddiol yn cael ei harddangos yn oriel Gwreiddiau Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, ac arbenigwr yn yr amgueddfa awgrymodd fod ganddi fwy na thebyg saffirau yn wreiddiol.

Arteffactau Caernarfon

Codau brodiog

Codau brodiog. Yn yr amser cyn fod gan ddillad bocedi wedi'u gwnïo, roedd pawb yn gwisgo codau a oedd yn hongian oddi ar eu gwregus neu eu staes. Byddai boneddigion a'r teulu brenhinol wedi gwisgo codau melfed brodiog tebyg i'r rhain.



Sut ydym yn gwybod sut olwg oedd ar godau brodiog?

Yn ogystal â delweddau mewn llawysgrifau canoloesol (e.e. 'Manesse Codex', tua 1300, Zurich), cedwir grŵp bach o godau brodiog (a elwir hefyd yn 'aumonieres') yn nhrysorfa Eglwys Gadeiriol Troyes, a chedwir casgliad arall yn Hamburg.

Arteffactau Caernarfon

Jwg bos

Jwg bos. Gwnaed y jwg grochenwaith er hwyl ac i ddiidanu. Sut ydych yn yfed yr hylif heb iddo arllwys o'r tyllau o amgylch yr ymyl? Yr ateb i'r pos yw bod gan y jwg bibell wedi'i chuddio, ac mae un pen ohoni'n ymddangos yn y big. Fel arfer, mae'r bibell yn rhedeg o amgylch yr ymyl ac yna i lawr y ddolen, ac mae ei hagoriad arall y tu mewn i'r jwg yn agos i'r gwaelod.

I ddatrys y pos, mae'n rhaid i'r yfwr sugno o ben y bibell yn y big. Er mwyn gwneud y pos yn fwy diddorol, roedd yn gyffredin rhoi nifer o dyllau ychwanegol ar hyd y bibell, y byddai'n rhaid eu cau cyn y gellid sugno'r cynnwys. Mae gan rai jygiau hyd yn oed dwll wedi'i guddio i wneud yr her yn anoddach fyth.

Sut ydym yn gwybod sut olwg oedd ar y jygiau pos a sut maent yn gweithio?

Gwnaed jygiau pos mewn amrywiaeth o ddyluniadau gwahanol, a chanfuwyd darnau mewn llawer o safleoedd archaeolegol ym Mhrydain ac yn Ewrop. Cynhyrchwyd y jwg gynharaf sy'n goroesi ym Mhrydain (a elwir yn Jwg Bos Caerwysg) yn Ffrainc tua 1300.



Arteffactau Caernarfon

Cwpan yfed â thair dolen

Cwpan yfed â thair dolen. Mae gan y gwpan yfed grochenwaith hon fwy nag un ddolen, sy'n ei gwneud yn haws ei throsglwyddo o un i'r llall. Câi bwyd a diod eu rhannu mewn gwleddoedd, a byddai cwpan o'r fath yn cael ei throsglwyddo o un person i'r nesaf.



Sut ydym yn gwybod sut olwg oedd ar gwpanau yfed tair dolen?

Canfuwyd amryw o gwpanau a darnau o gwpanau tair dolen mewn safleoedd cloddio archaeolegol. Gelwir cwpanau tair dolen o'r cyfnod canoloesol hwyrach yn 'tygs'.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arteffactau Caernarfon

Castelette

Castelette. Model o grwst trawiadol ac addurnol yw hwn, a fyddai wedi cael ei weini ar ffurf flambé mewn gwleddoedd arbennig.

Roedd angen meddu ar wybodaeth dda a llawer o sgil ym maes creu crwst i greu bwyd o'r safon a'r cymhlethdod hwn. Byddai cyflwyno bwyd fel hyn yn ystod gwleddoedd yn arddangos statws uchel, gan mai dim ond boneddigion cyfoethog a phwysig fyddai â chogydd a allai greu eitemau o'r fath.



Sut ydym yn gwybod am castelettes?

Mae disgrifiadau o 'casteleddau' a bwydydd eraill a gynlluniwyd i greu argraff ar wahoddedigion mewn gwleddoedd yn y canoloesoedd ('subtleties' yn Saesneg) mewn llawysgrifau, cyfrifon gosgordd, llyfrau rysáit a llyfrau moesau ac arferion canoloesol

Dengys cofnod mewn cyfrifon gosgordd bod Edward I wedi cael 'casteleddau' ar gyfer gwledd yng Nghastell Caernarfon.

Arteffactau Caernarfon

Ffollach

Ffollach. Gwnaed gwadnau'r gorchuddion esgidiau hyn o un darn o bren, neu weithiau corc, â thresi o ledr a oedd yn eu cadw yn eu lle ond a oedd hefyd yn caniatáu iddynt gael eu tynnu'n hawdd wrth fynd i mewn i'r adeilad. Roeddent yn codi'r gwisgwr uwchben y strydoedd a'r ffyrdd dibafin ac anwastad, a oedd yn aml yn fwdlyd â phyllau ac yn llawn sbwriel bywyd bob dydd ac anifeiliaid drwy'r flwyddyn. Caent eu gwisgo dros esgidiau â gwadnau tenau o ledr neu ddefnydd meddal a gâi eu gwisgo tu mewn. Roedd y ffollachau yn helpu i ddiogelu'r esgidiau hyn a oedd yn aml yn ddrud ac wedi'u haddurno'n gain.



Sut ydym yn gwybod am ffollachau?

Mae llawer o ddarluniau o'r 1400au yn dangos ffollachau. Gellir eu gweld yn glir ym '*Mhortread Arnolfini*', a baentwyd gan Jan Van Eyck ym 1434. Ceir disgrifiadau o ffollachau mewn llawysgrifau canoloesol, a chanfuwyd gweddillion ffollachau mewn safleoedd cloddio archaeolegol.